TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

CBAC Cemeg UG Lefel 3

Yn gryno

Mae cwrs Safon Uwch Cemeg CBAC yn cynnig cwrs astudio eang, cydlynol a gwerth chweil. Mae astudio ar y cwrs Safon Uwch Cemeg hwn yn annog dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o feysydd gwahanol y pwnc a sut maent yn ymwneud â'i gilydd yn ogystal â datblygu a dangos gwerthfawrogiad dwys o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau gwyddonol.

Dyma'r cwrs i chi os...

...os hoffech chi ddilyn y Llwybr Meddygaeth neu'r Llwybr Mathemateg, Ffiseg neu Gyfrifiadureg

...Os oes awydd arnoch chi wybod am Gemeg

...Os ydych chi'n mwynhau dysgu am Wyddoniaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Blwyddyn 1 - Lefel UG

Uned 1: Iaith Cemeg, Strwythur Mater ac Adweithiau Syml.

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud (80 marc)
Uned 2: Egni, Cyfradd a Chemeg Cyfansoddion Carbon.

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud (80 marc)

Blwyddyn 2 - Lefel U

Uned 3: Cemeg Ffisegol ac Anorganig.

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud (80 marc)
Uned 4: Cemeg Organig a Dadansoddi.

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud (80 marc)
Uned 5: Ymarferol (60 marc)

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys dwy uned yn y flwyddyn gyntaf gyda thasgau ymarferol gorfodol sy'n cael eu harholi mewn dau bapur damcaniaeth. Yn yr ail flwyddyn, mae tair uned arall, sy'n cael eu harholi mewn dau bapur damcaniaeth, a thasgau ymarferol gorfodol sy'n cael eu harholi mewn arholiad ymarferol. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Cemeg Lefel UG
Cemeg Lefel U
Gweithgareddau sgiliau
Saesneg a Mathemateg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I astudio ar y cwrs hwn, bydd angen o leiaf 5 TGAU, gradd C neu uwch gan gynnwys gradd B mewn Cemeg neu radd BB mewn Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl). Hefyd, bydd angen TGAU Rhifedd, gradd B.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Nid yn unig yw'r camau nesaf yn cynnwys y cyrsiau Cemeg a Bioleg amlwg, ond hefyd Meddygaeth, Deintyddiaeth, Fferylliaeth, Gwyddor Filfeddygol, Gwyddorau Bwyd, Gwyddorau'r

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byd, Peirianneg, Gwyddor Fforensig a Gwyddor Amgylcheddol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Nodyn cynghori: rydym yn argymell bod Cemeg

lefel A yn cael ei hastudio ynghyd â Gwyddoniaeth

arall lefel A (yn unol â chanllawiau CBAC).